# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 30 Hydref 2002

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Beth yw'r ffigurau cymharol ar gyfer nifer y bobl sy'n derbyn lle mewn Prifysgolion yng Nghymru a Lloegr. (WAQ19917) **R**

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gasgliad y mae'r Gweinidog wedi dod iddo ynghylch yr arian sydd ei angen ar gyfer darparu'r ansawdd angenrheidiol ym maes hyfforddi athrawon. (WAQ20059)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);**A yw'r Gweinidog wedi cymharu'r sefyllfa yn sefydliadau Prifysgol yng Nghymru ar gyfer hyfforddi athrawon â'r pecyn cymorth o £3 miliwn a gynigir gan yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth i sefydliadau yn Lloegr. (WAQ20060)

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Gwledig*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth fydd cost darparu'r taliadau cynnal a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer ffermio organig. (WAQ19913)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ganran o dir ffermio Cymru sydd yn gymwys ar hyn o bryd am daliadau cynnal. (WAQ19914)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ardaloedd yng Nghymru fydd yn gymwys am y taliadau cynnal i ffermwyr organig a gyhoeddwyd yn ddiweddar. (WAQ19915)

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i fuddsoddi yn yr A470 a'r A483 dros y 5 mlynedd nesaf. (WAQ19912)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw gwerth yr hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i fuddsoddi yn yr A470 a'r A483 ers 6 Mai 1999. (WAQ19916)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ymrwymiad y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i wneud i fuddsoddi mewn gwelliannau i'r A470 a'r A483 ers 6 Mai 1999. (WAQ19918)

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr honiadau o dwyll yn erbyn Cyngor Sir y Fflint. (WAQ20057)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog sefydlu ymholiad annibynnol i'r honiadau o dwyll yn erbyn Cyngor Sir y Fflint. (WAQ20058)